

Gwers 17 – Duw yn gofalu am Elias

Nodiadau Cefndir i'r Athro

1 Brenhinoedd 17:1–16

Yn 1 a 2 Brenhinoedd, adroddir hanes brenhinoedd Israel a Jwda o deyrnasiad Solomon (975 CC) hyd at gwmpy y ddwy deyrnas a dechrau Caethglud Babilon (561 CC). Pan fu Solomon farw, dilynwyd ef gan ei fab Rehoboam. Os oedd llwythau'r gogledd yn meddwl eu bod wedi'u cam-drin gan Solomon yn ystod adeiladu'r Deml, roedd agwedd y brenin newydd tuag atynt yn fwy teyrn. Arweiniodd hynny at wrthryfel a rhwygwyd y deyrnas gyda deg llwyth y gogledd yn ffurfio teyrnas newydd, Israel, a galwodd dau lwyth y de eu hunain yn Jwda. Llywodraethwyd y gogledd gan Rehoboam, a'r de gan Jeroboam.

O dipyn i beth aeth y ddwy deyrnas i addoli duwiau dieithr. Gwnaeth Jereboam ddau lo aur a gosododd un ym Methel a'r llall yn Dan; felly trodd Israel ei chefn ar grefydd ei chyndadau. Ni fu'n hir cyn i Jwda ddilyn gan adeiladu cysegrleoedd i eilunod. Sefydlwyd patrwm y dyfodol gyda brenhinoedd y ddwy deyrnas yn troi cefn ar Dduw ac yn addoli duwiau y cenedloedd eraill.

Ond nid hanes brenhinoedd yn unig a geir, oherwydd adroddir hanes proffwydi Duw; dyma yn wir oes aur proffwydoliaeth yn yr Hen Destament. Bu proffwydi ynghynt ac fe ddeuai eraill yn ddiweddarach, ond dyma ddechrau cyfnod y proffwydi mawr. Roedd y proffwydi hyn yn ddynion sanctaidd, ysbrydoledig a dewr iawn, yn wynebu drygioni'r oes ac yn rhybuddio'r bobl o gosb ddwyfol, gan eu hannog i fywyd o ufudd-dod i Dduw. Y cyntaf ohonynt oedd Elias; ef oedd y mwyaf miniog ei eiriau o'r proffwydi.

Daeth Elias o dref fechan yn ardal Gilead gan gyhoeddi wrth y brenin Ahab y byddai Duw yn cosbi'r genedl am ei hanufudd-dod trwy atal glaw am dair blynedd a hanner. Trefnodd Duw i gigfrain fwydo'r proffwyd yn nant Cerith cyn iddo fynd i Sareffath, at wraig weddw a fyddai'n ei letya. Pan glafychodd mab gwraig weddw, gweddiodd Elias ar i Dduw adfer einioes y bachgen ac felly y bu.

Solomon

Pan fu Dafydd farw esgynnodd Solomon i'r orsedd ac fel ei dad, teyrnasodd am 40 mlynedd. Yr oedd yn nodedig am ei ddoethineb a'i allu i ymdrin â phobl yn ddoeth (gweler 1 Bren. 3:16). Cyfeirir hefyd at wychder Solomon – dywedodd Iesu wrth gyfeirio at y lili, 'nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain' (Mathew 6:29). Dechreuodd ei deyrnasiad yn ogoneddus; trefnodd nifer o weinidogion, pob un ohonynt yn gyfrifol am adran o'r llywodraeth. Arweiniodd hyn at gyfnod o ffyniant mawr yn ei deyrnas (1 Bren. 4). Y gwaith mwyaf a ymgymerodd ag ef oedd adeiladu'r Deml yn Jerwsalem – dyma oedd dymuniad ei dad Dafydd (1 Bren. 5). Y mae'r sylfaen yr adeiladwyd Teml Solomon arni ar fynydd Moreia (yno y paratôdd Abraham i aberthu ei fab Isaac) yn aros hyd heddiw. Y Deml fyddai cartref Arch y Cyfamod. Tyfodd ei deyrnas i fod ddengwaith yr hyn yr etifeddodd ei dad. Arwydd o'i ddoethineb oedd ei ddibyniaeth ar Dduw o'r dechrau (1 Bren 3). Yn hytrach na gofyn am flynyddoedd lawer a chyfoeth, nac ychwaith oruchafiaeth ar ei elynion, ond am 'galon ddeallus i farnu dy bobl, i ddirnad da a drwg..' (1 Bren. 3:9). Fodd bynnag, er ei ddoethineb, cafwyd diwedd gwael i deyrnasiad Solomon. Defnyddiodd labrwy'r Israelaidd i adeiladu'r Deml ond ni fu mor garedig tuag at y gweithwyr o lwythau'r gogledd. Roedd ganddo 700 o wragedd (a 300 o ordderch-wragedd) o Moab, Yr Aifft, Edom a Sidon; roedd hynny'n groes i ddymuniad Duw (1 Bren. 10:2), ac yr oedd llawer ohonynt yn addoli gwahanol dduwiau. Hudodd y gwagedd Solomon i addoli'r duwiau estron 'ac nid oedd ei galon yn llwyr gyda'r Arglwydd ei Dduw. Digiodd yr Arglwydd wrth Solomon'.



Anfonodd Duw negeswyr arbennig o'r enw 'proffwydi'.
Roedd yna newyn ac roedd y proffwyd Elias yn unig ac yn llwglyd iawn.
Una'r dotiau i ganfod sut y derbyniodd fwyd.
Darllen y stori hon yn 1 Brenhinoedd 17:1-6.

Gwers 17 – Duw yn gofalu am Elias

Duw'n bwydo Elias | 1 Brenhinoedd 17:1–16

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 74



Gwers 17

Duw yn gofalu am Elias

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DROS 7 oed

Duw yn gofalu am Elias tud 74

BEIBL BACH STORI DUW

Digon o fara ac olew tud 147

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Elias a'r Cigfran tud 58

Jar a Jwg tud 60

BEIBL LLIW Y PLANT

Elias yn yr Anialwch tud 140

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Duw'n bwydo Elias tud 76

Duw'n helpu teulu tud 77

BEIBL BACH I BLANT

Dim Dŵ tud 188

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Digon o fwyd (161) tud 185

BEIBL LLIW Y TEULU

Duw'n goflau am Elias(156) tud 88

I Ddechrau ...

Bwydo Elias

Bydd angen darnau o 'fara' a 'chig' (fe wnaiff darnau o bapur lliw melyn a brown y tro) – tua 10 ar gyfer bob tîm. Dylech nodi sgôr ar gefn y darnau, rhwng 10 a 50.

Rhannwch y plant yn dimoedd, gyda'r 'bwyd' ar ochr arall yr ystafell. Gwnewch yn siŵr bod rhif cyfartal ar gyfer bob tîm yno. Esboniwch mai nod y gêm yw casglu'r bwyd ar gyfer y tîm. Mae aelodau'r tîm yn cymryd eu tro i nôl darn o fwyd. Ar ôl casglu'r 'bwyd', maen nhw'n cyfri'r sgôr sydd ar gefn y darnau – dyma sgôr y timoedd. Rhowch wobwr fechan i'r tîm buddugol.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl heddiw am y proffwyd Elias, a sut y bu i Dduw ddarparu bwyd ar ei gyfer mewn ffordd ryfeddol iawn.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac yna defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwysu'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Bydd angen Beiblau, pensiliau, enwau'r llefydd canlynol gyda'r cyfeiriadau a'r cwestiwn ar ddarnau o bapur A4, wedi'u gosod ar y waliau o amgylch yr ystafell:

Thisbe 1 Samuel 17:1 Pwy oedd yn dod o'r lle yma?

Cerith 1 Samuel 17: 3, 4 Beth gafodd Elias i'w fwyta yn y lle yma?

Sareffta 1 Samuel 17:9 Pwy roddodd fwyd i Elias yn y lle yma?

Carmel 1 Samuel 18:20 Pwy aeth i'r lle hwn? (Efallai yr hoffech esbonio wrth y plant y byddwn yn clywed beth ddigwyddodd ar fynydd Carmel yn y sesiwn nesaf.)

Esboniwch y byddwn yn dilyn taith Elias. Rhowch ddarn o bapur a phensel i bawb, neu rannu'r plant yn barau.

Dechreuwch wrth ymyl *Thisbe*, a chynorthwywch y plant i ddod o hyd i'r cyfeiriad Beiblaidd ac i chwilio am ateb y cwestiwn, 'Pwy oedd yn dod a'r lle yma?' Cewch bob person/pâr copïo enw'r lle ac ateb y cwestiwn ar y papur.

Gyda grŵp o blant iau, gallwch ddarllen yr adnoddau iddynt.

Parhewch nes eich bod wedi dod o hyd i'r atebion i gyd.

Roedd Duw yn gofalu am Elias yr holl amser.

Cymerwch amser i feddwl eto am y ffordd y mae Duw yn gofalu amdanom trwy ein teuluoedd a'n ffrindiau. Mae cael cwmni a chariad ein ffrindiau yn bwysig iawn. Treuliwch amser yn gweddio gyda'r plant yn diolch am y bobl sy'n bwysig i ni.

Gweddi

Diolch Duw am dy ofal

Rhowch amlinelliad tŷ syml i bawb a gofynnwch iddynt dynnu lluniau neu ysgrifennu rhestr o'r pethau a'r bobl y mae Duw'n eu rhoi inni sy'n gwneud ein bywydau'n hapus a diogel.

Treuliwch amser yn diolch i Dduw am y pethau y mae'r plant wedi'u nodi ar y llun. Anogwch y plant i weddio eu hunain, gan ddewis un neu ddau o bethau o'r llun.

Cân

'Bendigedig enw yr Iôr', Tyrd i Ddathlu, rhif..

Amser i Actio

Duw yn darparu (1 Brenhinoedd 17) gan ddefnyddio 'Beibl Lliw y Plant', tud. 140,141.

Rhannwch y plant yn dri grŵp, os yn bosibl. Gyda grŵp llai o blant, cewch ddewis un o'r adrannau, neu geisio cyflwyno'r tair adran.

Cyn cychwyn, esboniwch wrth y plant fod Duw wedi dangos ei nerth anhygoel ym mywyd y proffwyd Elias. Eglurwch mai'r person a fyddai'n dod â negeseuon gan Dduw i'w bobl oedd 'y proffwyd' yn amser yr Hen Destament.

- 1 Brenhinoedd 17:1-7. Elias yn cael ei fwydo wrth nant Cerith.
- 1 Brenhinoedd 17: 8-16. Olew a blawd y wraig weddw yn para'n wyrthiol.
- 1 Brenhinoedd 17:17-24. Elias yn codi mab y wraig weddw o farw'n fyw.

Dewiswch un o'r darllenwyr hyderus i ddarllen yr adnodau perthnasol neu'r adran o Feibl Lliw y Plant i'r grŵp.

Gofynnwch i bob grŵp feddwl am beth wnaeth Duw i ddangos ei nerth yn yr adran hon o'r stori, a sut y daeth nerth Duw â bywyd (bwyd i Elias, bywyd i'r wraig a'i mab trwy'r bwyd, bywyd i'r mab a oedd wedi marw).

Anogwch y plant i ddramateiddio eu rhan nhw o'r hanes trwy feim neu actio. Wedyn, gadewch i bob grŵp gyflwyno'r ddrama i bawb arall a gofynnwch i'r grwpiau eraill i feddwl wrth wyllo sut y bu i nerth Duw gael ei arddangos yn yr adran.

Os oes gennych amser dros ben, gallwch 'gyfweld' rhai o'r cymeriadau.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Plant Bach Cyfres Stori Duw

Elias yn helpu gwraig weddw tud. 90-92

Gwerslyrau Golau ar y Gair

Elias: Negesydd Duw

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C - Elias

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 21: Elias yn gofyn am fara

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 300

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 26: Dim Dŵr

Powerpoint ar wefan visionforchildren.co.uk

Hanes Elias y Proffwyd

Llyfrau Stori

Pam fod Elias yn cuddio?

Elias, Cyfres Testament - llyfr a fideo

Elias a'r Cigfran

